Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network



# Gwesty Plas Weunydd a Glampio Llechwedd

Bwyd a Thwristiaeth

## ANADLU TÂN I MEWN I CHWAREL

Wedi'i leoli ar Safle Treftadaeth y Byd UNESCO mwyaf newydd y DU, mae Plas Weunydd a Glampio Llechwedd yn gyrchfan berffaith ar gyfer taith anturus yn Eryri - p'un a ydych chi'n aros yn lleol ac yn mwynhau'r atyniadau ar garreg eich drws neu'n mynd yn ddyfnach i'r ardal syfrdanol hon a'i mynyddoedd a'i thraethau niferus.

Prosiect Plas Weunydd a Glampio Llechwedd oedd y cam diweddaraf mewn rhaglen hir o adfywio ar gyfer y busnes hanesyddol yn Chwarel Llechwedd. Adeilad gwreiddiol Plas Weunydd oedd cartref y teulu Greaves a ddechreuodd gloddio yn gynnar yn y 19eg ganrif, ac yna'n fwy diweddar gwnaed yr adeilad yn swyddfeydd i'r chwarel, cyn bod yn wag am rai blynyddoedd.

Nod y cynllun oedd creu gwesty 4* o safon uchel ar gyfer ymwelwyr teuluol gyda safle glampio moethus. Byddai hyn yn cryfhau nid yn unig arlwy llety Eryri ond yn arbennig ardal Blaenau Ffestiniog ac yn annog mwy o bobl i gyfuno antur a threftadaeth, gyda bwyd a llety tra'n dod â mwy o swyddi i'r ardal wledig.

Gyda'r atyniadau antur a threftadaeth ar y safle'n denu mwy na 225,000 o ymwelwyr bob blwyddyn gydag anturiaethau Zip World yn cynnwys Titan, Bounce Below, Caverns a The Deep Mine, ynghyd â phrofiadau beicio mynydd Antur Stiniog, roedd cwestiwn ynghylch lle i aros.

## MANTEISION Y CYLLID

Yn 2019, cefnogwyd y prosiect gan £380,000 drwy'r Gronfa Busnesau Micro a Bach drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, gan alluogi datblygiad Plas Weunydd a Glampio Llechwedd i ddechrau.

Gyda chyllid ychwanegol trwy gyfuniad o gronfeydd cyfranddalwyr, cyfalaf gweithio a chyllid banc, ganwyd llety bwtîc 4* Plas Weunydd yn cynnwys 24 ystafell steilus, bar a bwyty.

Cafodd y safle glampio ei enwi'n ddiweddar fel 'Hotel of the Year 2021' The Times a The Sunday Times ar gyfer Cymru gyda'r safle glampio'n cael ei gydnabod gan Croeso Cymru gyda gwobr aur pum seren am lety mae'r busnes wedi gallu cyflogi 25 o bobl leol ychwanegol. Gan adeiladu ar lwyddiant atyniadau Llechwedd mae prosiect llety Plas Weunydd a Glampio Llechwedd bellach yn dod ag arian twristiaid i'r ardal drwy gydol y flwyddyn.





**MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...**

Gyda chyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig a thrwy ddefnyddio twristiaeth antur a threftadaeth fel ffocws mae'r freuddwyd i adeiladu cyrchfan antur wedi dwyn ffrwyth.

"Roedd yn amlwg iawn bod prinder gwirioneddol o lety â gwasanaeth o safon yn yr ardal hon gan fod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng i ddim ond 50,000 dros 10 mlynedd yn ôl.

"Roedden ni eisiau mynd i'r afael â'r broblem hon ac roedd cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn golygu y gallai'r prosiect ddechrau oherwydd yr hyder a gynhyrchwyd ganddo a'r argaeledd i ddod o hyd i arian ychwanegol. Gyda'r buddsoddiad ychwanegol a gafwyd roedd hefyd yn ein galluogi i gyrraedd safon 4* yn hytrach na 3* ac roedden ni'n gallu cynhyrchu llety o safon uwch.



"Drwy ddatblygu'r gwesty rydyn ni hefyd wedi gallu cyflogi 25 o bobl eraill mewn ardal lle mae swyddi'n hynod o bwysig. Ond yn bwysicaf oll trwy ddatblygu cynnyrch o ansawdd uchel rydyn ni wedi gallu ymestyn y tymor fel bod pobl yn fwy tueddol o ddod yn ystod misoedd y gwanwyn a'r hydref.

"Mae'r cyllid hefyd wedi darparu effaith lluosydd gan y bydd pobl yn aros yn hirach yn yr ardal, yn profi mwy o atyniadau, y mynyddoedd a'r traethau a hefyd y cynnyrch gwych sy'n cael ei greu yma.

"Wrth edrych i'r dyfodol yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn dechrau meddwl sut y gallwn ehangu'r cynnig hwn. Rydyn ni eisoes yn edrych ar ateb glampio arloesol oddi ar y grid a fydd yn adeiladu ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud yma. Rydyn ni hefyd yn adeiladu llwybrau o fewn yr ystâd a fydd yn galluogi pobl i brofi cefn gwlad ac i fynd o un elfen o'n cynnig llety i'r llall.

"Ar y cyfan mae'r cyllid wedi bod yn gatalydd ar gyfer rhywbeth sy'n mynd i barhau i dyfu, rydyn ni'n mynd i barhau i ehangu'r cynnig llety o ansawdd uchel i bobl yma i brofi'r atyniadau antur a threftadaeth sy'n bodoli yn yr ardal hon."

Michael Bewick, Rheolwr Gyfarwyddwr J.W. Greaves